

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymuned Rhosybol

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymuned Rhosybol yn ysgol hapus a gweithgar, sy'n gofalu am les y disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae athrawon yn darparu cwricwlwm amrywiol trwy weithgareddau difyr sy'n ymestyn pob disgybl i ddatblygu a magu hyder i ddysgu. Mae'r ardaloedd dysgu yn fannau diddorol, ac mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd allanol er mwyn i'r disgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau. Mae disgyblion yn mwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored, er enghraifft wrth adeiladu lloches yn ysgol y goedwig, gan ddatblygu hyder a dyfalbarhad wrth gydweithio a datrys problemau. Mae'r elfen deuluol i'w gweld yn amlwg yn y berthynas agos sy'n datblygu rhwng disgyblion ar draws yr ystod oedran. Mae'r disgyblion hŷn yn esiampl arbennig ar gyfer y disgyblion ieuengaf, ac yn mwynhau eu cwmni yn ystod digwyddiadau ysgol gyfan ac amseroedd egwyl a chinio.

Mae disgyblion yn siarad Cymraeg yn naturiol yn eu dysgu a'u chwarae. Maent yn datblygu medrau darllen cadarn ac mae hyn yn cyfoethogi eu hysgrifennu sydd yn arddangos cywirdeb da a chynnwys diddorol. Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae athrawon yn darparu amrediad priodol o brofiadau digidol ar gyfer y disgyblion, er nad yw'r profiadau hyn yn sicrhau eu bod yn datblygu'r ystod lawn o'u medrau.

Rhoddir pwyslais ar gefnogi disgyblion i ddysgu am eu hardal leol, ac am bwysigrwydd y gymuned glòs sy'n bodoli ym mhentref Rhosybol. Mae athrawon a staff cymorth yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion gyda rhieni, ac yn cynnig cefnogaeth benodol, pan fydd angen.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol gydag angerdd, ac mae hi, y staff a'r llywodraethwyr yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn barhaus gan anelu am y gorau ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 1 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau digidol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.